OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1702

# Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (Cymru) 2006 a deuant i rym ar y 30 Mehefin 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran mangreoedd preswyl yng Nghymru(**1**).

(**1**) Mae'r pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 4 o'r Ddeddf yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o "the appropriate national authority" yn adran 261(1).